




ENTRE**COMPEDU**

Modiwl 2

Mynd yn Ddyfnach 2.1

**Nodau, amcanion a deilliannau
dysgu entrepreneuriaid**



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Mynd yn Ddyfnach 2.1

Cyflwyno nodau, amcanion a deilliannau dysgu entrepreneuriaid	3
Sut y mae'r rhain yn gweithio yn ymarferol?.....	5
Golwg fanylach ar yr elfennau hyn.....	6
Ysgrifennu amcanion dysgu	10



Cyflwyno nodau, amcanion a deilliannau dysgu entrepreneuriaidd

Amcanion

Nodau



Deilliannau

Mae yna lawer o dermau sy'n gysylltiedig â'r elfen 'pam' yn y broses gynllunio. Yn aml iawn mae'r rhain yn ymwneud â pha mor benodol yw rhywbeth. Maent yn amrywio o'r nodau dysgu cyffredinol a welir mewn rhaglen neu gwricwlwm, a allai gynnwys cynlluniau hirdymor (er enghraifft, dros flwyddyn ysgol), i amcanion dysgu mwy penodol a chyfyng, sydd i'w gweld fel arfer mewn cynlluniau gwersi penodol.

Nodau dysgu – datganiadau cyffredinol o fwriad, sydd fel arfer yn dechrau ag ymadroddion fel 'datblygu...', 'cyflwyno...'.

Amcanion dysgu – disgrifiadau mwy penodol o fwriadau'r athro, sydd fel arfer yn cynnwys sut y bydd y nodau'n cael eu cyflawni.

Deilliannau dysgu – yn canolbwyntio mwy ar yr hyn y mae'r myfyrwyr wedi'i gynhyrchu, h.y. yn nhermau gwybodaeth, dealltwriaeth gysyniadol a sgiliau. Er enghraifft, mae EntreComp yn cynnwys geiriadur o ddeilliannau dysgu sy'n cael eu mynegi fel datganiadau "Gallaf ..." ar gyfer pob un o gymwyseddau EntreComp.



Mae Ffigur 2.1.1 isod yn crynhoi'r gwahaniaeth rhwng y tri therm allweddol hyn. Mae'r termau hefyd yn datgelu damcaniaethau dysgu gwahanol. Er enghraifft, mae dull gweithredu sy'n seiliedig ar amcanion yn gweld dysgu yn bennaf yn nhermau ymddygiadau y gellir eu gweld a'u mesur. Mae'r diffiniadau o'r termau hyn, a'r ffordd y cânt eu defnyddio, yn amrywio, hyd yn oed ymhlith academyddion ac addysgwyr.



Ffigur 2.1.1 Nodau, amcanion a deilliannau



Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.1.1: Gwyllo fideo

Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.1.1: Gwyllo fideo

Gwylwch y fideo hwn sy'n egluro'r gwahaniaeth rhwng nodau, amcanion a deilliannau dysgu [cyfieithiad awtomatig ar gael trwy YouTube]: https://www.youtube.com/watch?v=g_Xm5ljYKQ

A yw'r fideo hwn wedi eich ysbrydoli a rhoi syniadau newydd i chi (beth?), ynteu a yw'n sôn am bethau sydd eisoes yn amlwg i chi fel athro wrth i chi gynllunio ar gyfer addysgu?

Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yn Nhasg 2.1.1 Modiwl 2 ENTRECOMPEDU

	GOAL	OBJECTIVE	LEARNING OUTCOME
GEOLGY	To develop knowledge, understanding and skills related to the recognition and interpretation of igneous and metamorphic rocks.	To explain the different magma geochemistries derived from partial melting of the mantle in different tectonic regimes.	Students will demonstrate how magma geochemistry relates to partial melting of the mantle by contrasting the outcomes of this process in different tectonic regimes through the critical analysis of specific case studies.
ENGLISH	To introduce students to modes of satirical writing in the eighteenth century.	To familiarise students with a number of representative eighteenth century texts. Students will be trained in the close reading of language and its relation to literary form.	Students will analyse the relationship between the language of satire to literary form by the close examination of a selected number of eighteenth-century texts in a written essay.
ENGINEERING	To introduce senior engineering students to design of concrete components of structure and foundation and the integration of them into overall design structures.	The student is able to function in teams.	Functioning as members of a team, students will design and present a concrete structure which complies with engineering standards.

OAKLAND UNIVERSITY
Provided by UConn Assessment
The Center for Excellence in Teaching and Learning
2016-2017
© 2016 Oakland University
www.oakland.edu

Sut y mae'r rhain yn gweithio yn ymarferol?

Efallai y bydd cyfatebiaeth syml, sef teithio i adeilad newydd ar gyfer cyfarfod gwerthuso, yn helpu i egluro sut y defnyddir y termau yn y modiwlau hyn.

Yn yr achos hwn, dylai **nodau** perthnasol gynnwys:

⇒ cyrraedd y cyfarfod yn ddiogel

⇒ cwblhau adolygiad o'ch perfformiad blynyddol



Bydd eich **blaenoriaethau** yn cynnwys:

⇒ bod yn brydlon a chyfathrebu'r hyn sydd gennych i'w ddweud yn glir

Gan ddibynnu ar yr hyn yr ydych am ei ddysgu o'r cyfarfod, mae'n bosibl mai eich **amcanion** fydd:

⇒ amlygu tri pheth allweddol yr ydych wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn

⇒ awgrymu gwelliannau ar gyfer trefniadau cynefino y flwyddyn nesaf

⇒ cwblhau crynodeb o anghenion hyfforddi

Efallai mai eich **deilliannau dysgu bwriadedig** ar ddiwedd y cyfarfod fydd:

⇒ rhestru eich cyflawniadau (gwybodaeth)

⇒ egluro sut i wella trefniadau cynefino (sgiliau)

⇒ crynhoi eich gofynion hyfforddi (dealltwriaeth)

Er mwyn cyflawni unrhyw nodau neu amcanion, bydd angen i chi ddangos ymddygiadau amrywiol neu fodloni **meini prawf llwyddiant** penodol. Er enghraifft:

⇒ er mwyn cyrraedd mewn pryd, bydd angen i chi:

> gynllunio'r daith, cadw o fewn terfynau cyflymder a chaniatáu digon o amser

⇒ er mwyn cyfathrebu eich cyflawniadau a'ch awgrymiadau, bydd angen i chi:

> siarad yn glir, cadw at y pwyntiau perthnasol a bod yn gryno.

Os byddwch yn gwneud y pethau hyn yn dda, mae'n debyg y byddwch yn cyflawni eich nod cyffredinol a'ch amcanion.

Golwg fanylach ar yr elfennau hyn

Nodau



Mae'n bwysig ystyried pwy sy'n gosod nodau dysgu a pha fath o nodau yw'r rhain. Fel y crybwyllwyd yn y prif fodiwl, mae goblygiadau yma yng nghyswllt cynllunio dysgu entrepreneuriaidd. Dylech feddwl am y canlynol:

- cael y myfyrwyr i osod eu nodau eu hunain
- gosod tasgau heriol, penagored
- creu hinsawdd lle mae **methiannau campus** yn cael eu gweld mewn golau cadarnhaol
- gwobrwyo ymdrechion myfyrwyr yn ogystal â'u deilliannau
- datblygu arferion lle mae myfyrwyr yn adolygu eu cynnydd eu hunain yn rheolaidd

Amcanion dysgu

Datganiadau sydd wedi'u nodi ymlaen llaw yw'r rhain, ac maent yn ceisio gwella dysgu'r myfyrwyr mewn ffyrdd mesuradwy. Mae'r arfer gorau yn argymhell y dylai'r amcanion dysgu fod yn rhai:

Cyraeddadwy – o fewn cyrraedd y myfyrwyr yn y cyd-destun lle maent yn dysgu

Amserol – i'w cyflawni o fewn amser penodol, e.e. cyn diwedd y wers neu'r uned

Mesuradwy – i'w gweld erbyn diwedd yr amser a nodwyd

Penodol – yn gryno, yn ddiamwys, ac yn berthnasol i anghenion y myfyrwyr a chynnwys y pwnc

Uchelgeisiol – yn gofyn am ymdrech neu ddawn arbennig i sicrhau llwyddiant

Synhwyrol – yn gwneud synnwyr

Mae'r ddamcaniaeth sydd y tu ôl i amcanion dysgu yn seiliedig ar waith Benjamin Bloom, a luniodd hierarchaeth o nodau addysgol dros drigain mlynedd yn ôl. Mae



gwaith Bloom wedi cael ei feirniadu, ond mae'n dal yn boblogaidd. Gweler y troednodiadau am ddolen i'w waith academaidd arloesol¹.

Deilliannau dysgu

Yn dechnegol, dylid cyfeirio at y rhain fel deilliannau dysgu *bwriadedig*, neu *fwriadau* dysgu, oherwydd ni allwch ragfynegi beth y byddwch yn ei ddysgu cyn y profiad o ddysgu. Y gwir ddeilliannau dysgu yw'r hyn rydych yn ei gael o'r profiad o ddysgu – gwers, gweithdy neu gyfarfod fel yr awgrymir uchod.


Mae'n bwysig cofio am ddeilliannau dysgu annisgwyl, hynny yw, lle gallai'r deilliannau dysgu fod yn wahanol i'r hyn a fwriadwyd. Er enghraifft, efallai eich bod yn teimlo bod rhywbeth a ddywedwyd yn y cyfarfod yn annheg, a bod hynny wedi sbarduno ateb parod gennych, ond eich bod yn edifar yn ddiweddarach. Mae hyn yn achosi deilliannau dysgu annisgwyl (e.e. teimlad o dristwch) nad ydynt yn cydfynd â'r amcanion dysgu bwriadedig.

¹ Bloom, Benjamin S. *Taxonomy of Educational Objectives: The Classification of Educational Goals*. New York: Longmans, Green, 1956. Fersiwn wedi'i Argraffu. Ar gyfer fersiwn ar-lein gweler: <https://www.uky.edu/~rsand1/china2018/texts/Bloom%20et%20al%20-Taxonomy%20of%20Educational%20Objectives.pdf>



Mae Ffigur 2.1.2 yn dangos y nodau, yr amcanion, y meini prawf llwyddiant a'r deilliannau ar ffurf map ffordd ar gyfer prosiect.

Map ffordd ar gyfer prosiect:



Ffigur 2.1.2 Map ffordd ar gyfer prosiect yn dangos nod, amcanion a deilliannau dysgu

Ysgrifennu amcanion dysgu

Un ffordd o ysgrifennu amcanion dysgu entrepreneuriaidd clir yw trwy ddilyn tri cham sylfaenol:

CAM 1 ...

PRYD: Penderfynwch ar y ffrâm amser a llenwch y bwlch:

'Erbyn diwedd y ————— [wers, prosiect, uned], bydd y myfyrwyr yn gallu ...'

CAM 2 ...

CAMAU GWEITHREDU: Ychwanegwch ferf weithredu briodol at ddiwedd y cymal, fel bod modd rhannu'r cymal â'r myfyrwyr. Rhaid i'r weithred fod yn un y gellir ei mesur o fewn y ffrâm amser, e.e.

'Erbyn diwedd y prosiect bydd y myfyrwyr yn gallu cynllunio gêm fwrdd newydd ...'

CAM 3 ...

CYD-DESTUN GWERTH: Gorffennwch â chyd-destun, amod neu faen prawf penodol y gall y myfyrwyr ei ddefnyddio i ddangos eu bod yn ychwanegu gwerth, e.e.

'Erbyn diwedd y prosiect bydd y myfyrwyr yn gallu cynllunio gêm fwrdd newydd ar gyfer plant 10-15 oed sy'n ddall neu sydd â nam ar eu golwg.'

Blwch 2.12 Y broses o ysgrifennu amcanion dysgu

Tueddir i osgoi rhai berfau wrth ysgrifennu amcanion dysgu oherwydd eu bod naill ai'n amwys neu'n anodd eu mesur. Enghreifftiau o'r rhain yw:

Gwerthfawrogi. Credu. Teimlo. Gwella. Gwybod.
Dysgu. Deall.



Nid yw termau tebyg i 'meddwl', 'gwybod' a 'deall' yn fesuradwy oni bai eu bod yn cael eu disgrifio neu eu cymhwyso. Mae rhai addysgwyr wedi datblygu offer ar-lein sy'n caniatáu i ddefnyddwyr greu eu hamcanion dysgu eu hunain. Gweler yr adeiladwr amcanion a ddatblygwyd gan Brifysgol Talaith Arizona: <https://teachonline.asu.edu/objectives-builder/>

Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.1.2: Ysgrifennu amcanion dysgu

Defnyddiwch y canllawiau tri cham i ysgrifennu amcanion dysgu entrepreneuriaidd ar gyfer eich gwern neu thema addysgu nesaf. Cofiwch ganolbwyntio ar gymwysedau entrepreneuriaidd a defnyddio EntreComp fel ysbrydoliaeth.

Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.1.3: Defnyddio'r Blwch Offer

Ewch i'r Blwch Offer ar gyfer Arloesi ac Entrepreneuriaeth mewn Addysg (dolen isod) ac adolygwch y canllawiau ar ysgrifennu amcanion dysgu ar gyfer addysg arloesi ac entrepreneuriaeth. Dewiswch ferf a sgil i lunio amcan dysgu ar gyfer creu gwerth sy'n berthnasol i'ch cyd-destun addysgu.


Dolen: <https://innovationenglish.sites.ku.dk/how-to-use-the-toolbox/> (safle yn Saesneg – defnyddiwch Chrome os oes arnoch angen cyfieithiad awtomatig)

A oedd y blwch offer hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi gynllunio? Pam? Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yn Nhasg 2.1.3 Modiwl 2 ENTRECOMPEDU



Mewn addysg entrepreneuriaidd, mae yna densiwn rhwng amcanion dysgu rhagnodedig, seiliedig ar ddamcaniaeth ymddygiadol ynglŷn â dysgu, a deilliannau mwy penagored, seiliedig ar ddamcaniaeth adeileddwr cymdeithasol. Yn wir, awgryma Rod Judkins (2015: 96), awdur *The Art of Creative Thinking*, fod chwilio am amcan yn atal gwir greadigrwydd a'r gallu i archwilio. Os ewch allan i chwilio am un peth, ni ddeuwch o hyd i ddim byd arall. Mae gan wyfyn nod, y fflam, ond mae'n cael ei ddifa ganddi.

Mae Judkins yn cyfeirio at stori William Burroughs (1914-1997), awdur ac artist gweledol o America. Un o'r ffactorau a oedd yn gyfrifol am lwyddiant Burroughs oedd y ffaith nad oedd ganddo nod pendant wrth iddo ddechrau ysgrifennu. Yn hytrach, defnyddiai dechneg torri allan i greu dewis amgen yn lle storïau traddodiadol. Torrai frawddegau o bapurau newydd, llyfrau neu ddarnau ysgrifenedig a'u gludo yn ôl at ei gilydd, a hynny ar hap yn aml. Rhyfeddai Burroughs at y cyfuniadau anarferol yr oedd yn eu creu.



Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 2.1.4: Trafod gyda'ch myfyrwr

Gallwch wyllo Burroughs yn egluro ei dechneg yn y fideo creadigol hwn. Trafodwch â'ch myfyrwr sut y gallent addasu'r syniad gan ddefnyddio delweddau, cerddoriaeth neu glipiau sain i greu rhywbeth newydd. Gallwch gael ysbrydoliaeth ynglŷn â sut i arwain y drafodaeth trwy ddarllen yr erthygl hon:

<http://www.openculture.com/2016/07/how-to-jumpstart-your-creative-process-with-william-s-burroughs-cut-up-technique.html>

<https://zli.umich.edu/success-story/entrepreneur-residence-uses-flipped-classroom-strategy-promote-action-based-learning>

